# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Grŵp Gofal Treherne (Gofal Cartref)**

**Glasfryn Stores**
**Y Bont-ddu**
**Dolgellau**
**LL40 2UA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Grŵp Gofal Treherne (Gofal Cartref)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Treherne Care and Consultancy Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 04/05/2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael gan Grŵp Gofal Treherne. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd a chânt eu cefnogi i fod mor annibynnol ag y gallant fod, gan wneud y pethau sydd o bwys iddynt. Mae'r cofnodion gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac o safon uchel. Mae'r darparwr yn canolbwyntio ar gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff y bobl eu cadw mor ddiogel â phosibl ac, er bod cynlluniau rheoli risg ar waith, caiff y bobl eu parchu i wneud eu penderfyniadau eu hunain hefyd.

Caiff y gweithwyr cymorth eu recriwtio'n ddiogel a'u hyfforddi'n dda. Mae prosesau cryf ar waith ar gyfer sefydlu staff newydd a'u cefnogi gyda'u dysgu a'u datblygiad parhaus. Yn ddieithriad, dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu rôl a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi yn y sefydliad.

Mae prosesau da ar waith i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, a cheir adroddiadau manwl i ddangos hyn ac unrhyw gamau gweithredu gofynnol. Caiff ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol eu cynnal yn amlach ac mae eu hansawdd wedi gwella. Mae'r darparwr yn gwerthfawrogi mewnbwn ac adborth nifer o randdeiliaid, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr adroddiadau ar ansawdd y gofal.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r bobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain gyda'u tenantiaethau eu hunain a gallant ddewis pryd a sut yr hoffent gael eu cefnogi, gan gynnwys pwy sy'n darparu'r cymorth. Caiff y bobl eu cefnogi gymaint neu gyn lleied ag sydd angen, yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn a'i ddymuniadau. Gwelsom bobl yn cymryd rhan mewn grŵp cerdded, yn mynd i siopa am y diwrnod, yn cymdeithasu â phobl eraill ac yn mynd i'r gymuned leol. Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt a chânt eu hannog i fwynhau gweithgareddau newydd. Dywedodd y bobl wrthym am y cynlluniau roeddent wedi'u gwneud ar gyfer yr wythnos a'u cynlluniau tymor hwy, fel mynd ar wyliau. Caiff hobïau a diddordebau'r bobl eu hannog, a gwelsom sgiliau mewn meysydd fel garddio, gwaith celf, crefft a gofalu am anifeiliaid anwes. Gwelsom fod asesiadau risg ar waith sy'n cefnogi'r bobl i fod mor ddiogel â phosibl, ond sydd hefyd yn parchu hawliau'r bobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch, ac mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hollbwysig. Roedd y staff a'r bobl a gaiff eu cefnogi yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffordd hwyliog a pharchus. Mae'r gweithwyr cymorth yn adnabod y bobl yn dda iawn ac maent wedi meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â nhw. Mae'r unigolion yn eu trin fel ffrindiau. Caiff yr unigolion eu cefnogi i gael gafael ar wasanaethau iechyd ac i fynd i apwyntiadau, gan gynnwys adolygiadau blynyddol. Mae'r darparwr yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol allanol i gefnogi pob maes iechyd a llesiant, ac mae'r bobl hefyd yn cael budd o dîm clinigol mewnol sy'n gweithio gyda'r staff a gweithwyr proffesiynol eraill.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi ymarfer yn hyn o beth. Gwelsom fod digwyddiadau, damweiniau a phryderon diogelu yn cael eu cofnodi ac y rhoddir gwybod amdanynt yn briodol, ac mae prosesau da iawn ar waith i sicrhau y caiff pob cam ei gwblhau pan gaiff pryder ei nodi. Roedd yr holl reolwyr y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran y gweithdrefnau diogelu a gwnaethant ddweud eu bod yn cael cymorth gan y tîm uwch-reolwyr gyda hyn hefyd. Lle bo angen cyfyngiadau er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel, mae trefniadau ar waith gyda gweithwyr cymdeithasol ac eiriolwyr, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd uchel a gaiff eu cynllunio mewn ymgynghoriad â nhw neu eu cynrychiolydd ac sy'n ystyried eu dymuniadau, eu hanghenion a'u dyheadau. Caiff cynllun darparu gwasanaeth ei gwblhau cyn i unigolyn ddechrau derbyn gofal a chymorth er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu ei anghenion yn y ffordd y mae'n dymuno. Gwelsom fod y cynlluniau personol a'r cofnodion gofal yn fanwl ac mewn fformat sy'n bersonol i'r unigolyn. Caiff adolygiadau manwl eu cynnal gyda'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr, ac eto mewn fformat sy'n diwallu anghenion yr unigolyn. Dywedodd y darparwr wrthym fod hwn yn faes y mae'n parhau i'w ddatblygu gyda mewnbwn gan yr holl staff, er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau gymaint â phosibl. Cynigir copïau o'u cofnodion gofal i'r bobl ac, er bod rhai o'r bobl yn dewis cadw'r rhain yn eu cartref, mae rhai eraill wedi dewis peidio â gwneud hynny.

Caiff y bobl eu cefnogi i ddatblygu a dysgu sgiliau newydd, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gwelsom fod rhai o'r bobl yn rheoli eu harian a'u meddyginiaeth eu hunain. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw wedi setlo ac yn fodlon, ac roedd rhai eraill yn falch o'r hyn roeddent wedi'i gyflawni ac yn gobeithio bod yn fwy annibynnol yn y dyfodol. Drwy weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, mae'r bobl wedi cael eu cefnogi i fod yn fwy annibynnol, naill ai drwy leihau faint o gymorth sydd ei angen arnynt neu drwy symud i lety yn y gymuned. Caiff cyfleoedd eu creu i'r bobl wneud gwaith am dâl.

Mae'r darparwr yn sicrhau y gall y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth fynegi eu safbwyntiau a'u barn. Gwneir hyn drwy holiaduron, adolygiadau, a sgyrsiau â'r Unigolyn Cyfrifol fel rhan o'i ymweliadau rheolaidd. Caiff yr adborth ei grynhoi yn yr adroddiad ar ansawdd y gofal. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y cymorth y maent yn ei gael a'u bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“I’m really happy here, I feel safe.”*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sydd â strwythur rheoli cadarn a phrosesau ar waith i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd. Mae rheolwyr profiadol a chymwysedig wedi'u cyflogi i oruchwylio'r lleoliadau byw â chymorth a'r gwasanaethau allgymorth. Mae hyn yn sicrhau y caiff swyddogaethau dyddiol eu cyflawni a chaiff y staff eu cefnogi i ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae tîm uwch-reolwyr sy'n cynnwys rheolwr gweithrediadau a chyfarwyddwr gofal sy'n goruchwylio pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau ac yn cynnal archwiliadau rheolaidd, gan nodi meysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw a chreu camau gweithredu a amserir. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn y sefydliad, ac yn gwerthfawrogi'r rheolaeth sydd ganddynt o ran cyfrannu at y gwaith o redeg y gwasanaeth. Gwelsom fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal mewn timau llai o staff yn ogystal â chyfarfodydd tîm llawn mwy. Dywedwyd wrthym fod y cyfarfodydd hyn yn ystyried ffyrdd o ddatblygu ymarfer ac y gall y staff rannu syniadau ac arferion gorau. Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno bod hyn o fudd i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn creu diwylliant cadarnhaol yn y sefydliad.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth am nad oedd yr Unigolyn Cyfrifol yn ymgymryd â'i rôl fel sydd angen. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn. Gwelsom fod ymweliadau rheolaidd yn cael eu cynnal a bod adroddiad manwl yn cael ei lunio er mwyn dangos yr elfennau o'r gwasanaeth a ystyriwyd a'r sgyrsiau a gafwyd â'r bobl sy'n cael eu cefnogi, y gweithwyr cymorth a theuluoedd neu gynrychiolwyr. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau bob chwe mis er mwyn ystyried yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae'r bobl yn gweithio gyda gweithwyr cymorth sydd wedi'u recriwtio'n ddiogel, sydd wedi cwblhau cyfnod sefydlu ac sy'n cael eu cefnogi i ddysgu a datblygu'n barhaus. Gwnaethom edrych ar ffeiliau recriwtio'r staff a gwelsom fod yr holl wiriadau cyn cyflogi gofynnol ar waith. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon a oedd wedi cael eu dilysu. Mae'r gwiriadau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal sy'n ddiogel ac yn addas i weithio gydag oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael cyfnod sefydlu ardderchog yn y sefydliad a chânt eu cefnogi drwy eu cyfnod prawf i gwblhau hyfforddiant a meithrin gwybodaeth yn unol â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan, er mwyn iddynt gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Gwelsom fod y staff a'r rheolwyr yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ac arfarniad blynyddol o'u gwaith. Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ac yna ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol sy'n benodol i'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Mae datganiad o ddiben ar waith ac mae gan bob lleoliad ei ganllaw ei hun ar gyfer y gwasanaeth. Mae hyn yn rhoi gwybod i'r bobl am yr hyn y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn dewis cael gwasanaeth gan Grŵp Gofal Treherne. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cael eu hadolygu yn ôl yr angen ac sy'n adlewyrchu'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth gyfredol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 73 | Nid yw’r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â’r cartref bob tri mis o leiaf. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol bob tri mis o leiaf, a chyfarfod â'r unigolion a'r staff fel rhan o'r ymweliad. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 80 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi gwneud darpariaeth i ansawdd y gofal a’r cymorth gael ei adolygu o leiaf bob chwe mis. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r staff yn Garth Angharad yn derbyn arfarniadau rheolaidd, fel sy'n ofynnol fel rhan o'u cefnogaeth a'u datblygiad. | Cyflawnwyd |
| 38 | Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y meysydd yn y gwasanaeth yn derbyn cyfarfodydd staff rheolaidd. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/05/2024